

## Amaeth a gwarchod y tir gan Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

### Môn Mam Cymru - amaeth yn creu clytwaith caeau.

Mae tirwedd arfordirol Ynys Môn yn un o'r tirweddau mwyaf arbennig, deniadol ac amrywiol yn Ynysoedd Prydain. Am y rheswm yma mae'r ardal wedi ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Prif ddiben Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yw cadw a chyfoethogi harddwch naturiol yr ardal a ddynodwyd.



Mae llawer o nodweddion arbennig i dirwedd unigryw AHNE Ynys Môn. Yn sicr mae'r arfordir yn nodwedd amlwg, ond dylanwadwyd ar gymeriad y tirwedd gan ganrifoedd o ffermio. Gelwir Ynys Môn yn 'Môn, Mam Cymru' gan fod gallu'r ardal i gynhyrchu bwyd i fwydo gweddill y wlad cystal. Amaethyddiaeth yw prif ddefnydd tir yr AHNE, ac mae waliau cerrig, gwrychoedd a phatrymau caeau yn rhan annatod o'r dirwedd.



AHNE Ynys Môn

Mae amaethyddiaeth felly yn bwysig iawn yn yr AHNE, ac oherwydd hyn mae perthynas uniongyrchol rhwng cymeriad ac ansawdd tirwedd ag arferion amaethyddol.

Edrychwch ar y lluniau isod o AHNE Ynys Môn. Buasai cymeriad y tirlun yn wahanol iawn heb arferion amaethyddol. Dychmygwch sut y buasai'r tir yn edrych os na fyddai'n cael ei ffermio.



AHNE Ynys Môn – Y Fenai



AHNE Ynys Môn - Cemlyn

Yn draddodiadol, seiliwyd amaethyddiaeth ar yr Ynys ar ffermydd a daliadau bychan a chanolig, a'r rhein y'n gymysg. Yn ystod y 1990'au, bu symudiad o'r gyfundrefn gymysg hon tuag at arbenigo mewn cynhyrchu cig eidion a defaid. O ganlyniad, ffermydd cig eidion a defaid yw'r math mwyaf cyffredin o fferm yn yr AHNE.

Rhan bwysig tirlun yr AHNE yw'r ffiniau traddodiadol sydd yn rhannu'r tir amaethyddol. Ceir sawl gwahanol fath o ffiniau traddodiadol - gwrychoedd, cloddiau, a waliau cerrig, ac mae'r rhain yn helpu i wneud ein hardaloedd cefn gwlad yn unigryw.

Mae'r rhan fwyaf o ffiniau traddodiadol yn parhau i wneud yr un gwaith â phan godwyd nhw yn y lle cyntaf - i nodi rhaniadau rhwng eiddo ac i amddiffyn cnydau ac anifeiliaid. Yn ogystal â bod yn offeryn gwerthfawr i reoli fferm mae ffiniau traddodiadol yn darparu cynefin allweddol i lawer o fywyd gwylt. Maent yn rhoi cysgod ac yn diogelu rhywogaethau sy'n methu byw ar dir agored.

Mae ffiniau traddodiadol wedi ei gwneud, eu siapio a'u ffurfio o'r defnydd naturiol oedd wrth law. Er enghraifft wrth edrych ar waliau cerrig o amgylch AHNE Ynys Môn gellir gweld fod y math o gerrig a ddefnyddir yn adlewyrchu'r ddaearag leol.

Yn ogystal â dweud wrthym am y daeareg leol mae ffiniau yn gallu bod o ddiddordeb hanesyddol hefyd. Mae'r llun isod yn dangos ffens lechi (neu ffens grawia) ym Moel y Don ar lannau'r Fenai. Fel arfer gwelir y math yma o ffens yn ardaloedd y chwareli yng Ngwynedd. Nid oes hanes o gloddio llechi yn Moel y Don ond yn hytrach dyma ble roedd cychod yn dod a llechi drosodd o'r chwareli i'r Ynys. Felly roedd digon o lechi ar gael ym Moel y Don i adeiladu ffens o'r fath.



Ffens lechi ym Moel y Don



Wal gerrig calchfaen ym Moelfre

Mae llawer o'r ffiniau traddodiadol megis cloddiau a waliau cerrig yn dirywio ac yn aml maent yn cael eu newid am ffensys wiar sydd yn rhad ac yn hawdd i'w codi. Oherwydd hyn mae'r sgiliau traddodiadol o godi waliau cerrig a rheoli gwrychoedd yn cael eu colli.

Mae'r dirwedd amaethyddol felly yn bwysig iawn i gymeriad AHNE Ynys Môn. Mae'n bwysig felly ein bod yn hybu'r diwydiant ffermio leol er mwyn sicrhau fod nodweddion fel ffiniau traddodiadol yn cael eu gwarchod, eu hadfer a'u gwella.

### Tasgau

Fedrwch chi enwi'r gwahanol fathau o ffiniau sydd i'w gweld yn y lluniau yma: Wal Gerrig, Gwrych, Ffens Grawia, Clawdd, Ffens Wiar, Gwrych wedi blannu ar glawdd.



## **Gwaith Maes**

Ewch am dro yn yr ardal ogwmpas eich ty neu eich ysgol chi ac edrychwch ar y gwahanol ffiniau sydd yn cael eu dyfnyddio.

### **Nodwch**

1. Sut fath o ffin ydyw e.e carreg, gwrych/perth
2. Pa fath o ddefnydd ac o ble y gallai wedi dod
3. A yw'n gweddu gyda'r tirlun lleol
4. Pa gyflwr y mae'r ffin ynddo
5. Oes yna fywyd gwyllt yn byw yn y ffin? Mae rhai mathau yn arbennig o dda am roi cysgod i greaduriaid. A yw yn le da i drychfilod fyw, neu i lygod guddio, neu i adar nythu?

Gallwch ddangos y gwahanol fathau o ffiniau ar fap o'r ardal, neu gallwch gerdded i ben bryn a gwneud llun o'r hyn a welir. Wedyn, gallwch wneud gwaith celf ohono...

### **Gludwaith Cefn Gwlad**

Defnyddiwch darn mawr o gerdyn neu gardfwrdd i greu gludwaith (collage) o ddefnyddiau gwahanol i gynrychioli elfennau o ffermio ar y tirlun. Gall yr elfennau gynnwys:

- Tir wedi aredig - cardfwrdd rhychiog wedi beintio'n frown
- Glaswellt - glaswellt artiffisial fel a ddefnyddir mewn siopau llyisiau
- Coed neu wrychoedd - dail sych a brigau bychain
- Defaid - gwlan neu gwlan cotwm
- Wal gerrig - cynrychiolaeth wedi ei wneud o gerdyn.

